# HUMIE WEBBE

# CYMUNED

## ETIFEDDIAETH

Cafodd Humie Webbe ei magu mewn cartref Caribïaidd wedi'i siapio gan gerddoriaeth a hanes.

Daeth ei rhieni o St Kitts ac roeddent yn falch iawn o'u gwreiddiau.

Roedd gospel gan ei mam, jazz gan ei thad, a thraddodiadau Caribïaidd cryf yn rhoi ymdeimlad dwfn iddi o hunaniaeth a balchder diwylliannol.

## CYMRU YW...

**PERTHYN UNDOD AMRYWIAETH**

Mae Humie yn disgrifio ei hun fel Cymraes Garibïaidd - ac mae'r ddwy hunaniaeth yn anwahanadwy.

Ganwyd hi yng Nghaerdydd, gyda'i hunaniaeth gref o Gaerdydd a'i hacen gref, mae Cymru'n rhan o bwy yw hi.

Pan ymwelodd â'r Caribî yn ddeunaw oed, dyfnhaodd ei hunaniaeth, gan weld pobl Ddu yn arwain ym mhob rôl ac ar bob lefel.

> "Cadw dy safonau dy hun. Gwybod pwy wyt ti, sefyll yn gadarn yn dy werthoedd."

PIONEER OF WALES



## CYFRANIAD

Mae Humie'n teimlo'r balchder mwyaf o ofalu am ei mab awtistig a'i thad, gan herio systemau gofal cymdeithasol drwy brofiadau personol.

Helpodd i sefydlu Rhwydwaith y Sector Gwirfoddol Du Cymru, gan gryfhau gallu sefydliadau cymunedol Du ledled y wlad.

Mae llawer o'i gwaith yn digwydd yn dawel - dylanwadu ar bolisi, adeiladu sefydliadau, a chefnogi eraill i ddod yn arweinwyr.

## CRYFDERAU A LLAWENYDD

Eiriolwraig feddylgar sy'n gwerthfawrogi dysgu, uniondeb a safonau uchel.
Mae'n dod o hyd i lawenydd mewn cerddoriaeth, iaith, diwylliant Caribïaidd a rhannu gwybodaeth ag eraill.

> "Darllena'r dogfennau a'r polisïau i herio gwahaniaethu ac anghyfiawnder o sefyllfa wybodus."